06.01.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Pawb a'i Farn gyda'r Prif Weinidog

Mewn rhifyn arbennig o'r rhaglen drafod Pawb a'i Farn, bydd Betsan Powys yn cael y cyfle i holi Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru a hynny o swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays.

Does dim amheuaeth fod Mark Drakeford yn un o'r bobl prysuraf yng Nghymru ar hyn o bryd, wrth iddo arwain Llywodraeth Cymru trwy un o'r cyfnodau mwyaf heriol erioed. Bydd y rhaglen i'w gweld ar S4C Nos Iau 14 Ionawr am 9.00 yr hwyr a bydd cyfle i'r gwylwyr anfon eu cwestiynau i mewn o flaen llaw ar pawbaifarn@tinopolis.com

Gydag argyfwng y pandemig yn dal i hawlio'r penawdau, dyma gyfle i holi'r Prif Weinidog am rai o'r penderfyniadau anodd mae'n ei wynebu, wrth i'r feirws effeithio ar bob carfan o gymdeithas.

Dychwelodd cyfres hirhoedlog Pawb a'i Farn ar ei newydd wedd y llynedd, wrth i Betsan Powys gymryd yr awenau i lywio'r drafodaeth rhwng panelwyr ac aelodau o'r gymuned, ac yn ôl Catrin Evans, cynhyrchydd y gyfres un o'r heriau mwyaf oedd dechrau cyfres newydd mewn cyfnod o bandemig.

"Y bwriad oedd parhau â'r traddodiad o fynd â'r rhaglen ar daith a rhoi cyfle i bobl mewn amrywiol gymunedau leisio eu barn ar faterion cyfoes Cymreig a mynnu atebion gan y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau yn ein gwlad. " meddai Catrin.

"Yn amlwg fe roddodd Coronafeirws y brêcs ar hynny felly bu'n rhaid mynd ati ar wib i addasu.

Ry'n ni'n lwcus bod gan y cwmni ddigon o ofod stiwdio yn Llanelli sydd yn ein galluogi i gynhyrchu'r rhaglen o fewn canllawiau Covid-19 y Llywodraeth, ac hefyd yr holl adnoddau technegol i dderbyn cyfraniadau o bellter. Gan fod 'na uchafswm o 6 chyfrannydd yn gallu ymuno a ni yn y stiwdio, ry'n ni'n ymdrechu i gynnwys lleisiau ychwanegol drwy gyfrwng Skype neu Zoom ar sgriniau."

Un newid amlwg arall i'r gyfres yw cynnwys ffilmiau byrion o straeon perthnasol a chasglu barn pobl a chwestiynau o flaen llaw i'w cynnwys yn y rhaglen.

"Yn amlwg mae Covid wedi cynnig heriau ychwanegol - o ran angen gofod eang i alluogi bod pawb, yn gyfranwyr a chriw technegol, yn cadw 2 fetr ar wahân. Mae'r set wedi ei gynllunio gyda runway lawr y canol i wneud yn siŵr nad yw Betsan Powys yn gwyro'n rhy agos i'r cyfranwyr! Ac wrth gwrs ry'n ni'n gweld eisiau cynulleidfa yn fawr iawn - o ran ymateb yn reddfol, cymeradwyo neu fwian!"

"Yn sicr mae Pawb a'i Farn yr un mor berthnasol yn 2021 ac erioed o'r blaen. Prin iawn yw fforymau fel hyn sy'n mynd i'r afael a materion Cymreig ac wrth i Gymru barhau i newid yn wleidyddol, yn economaidd a chymdeithasol mae mwy nag erioed o angen am lwyfan lle gall pobl leisio barn a chwilio am atebolrwydd am y polisïau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd."

**Pawb a'i Farn gyda'r Prif Weinidog**
**Nos Iau, 14 Ionawr 2021, 9.00**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C**

06.01.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Pawb a'i Farn with the First Minister

In a special edition of the debate show **Pawb a'i Farn**, Betsan Powys will be interviewing the First Minister of Wales, Mark Drakeford, from Welsh Government offices in Cathays Park, Cardiff.

There is no doubt that Mark Drakeford is one of the busiest people in Wales at the moment as he leads Welsh Government through one of the most difficult periods ever. The programme can be seen on Thursday, 14 January at 9.00pm and there is an opportunity for viewers to send in their questions beforehand to pawbaifarn@tinopolis.com.

With the pandemic emergency still dominating the headlines, here's a chance to question the First Minister about some of the difficult decisions he faces, as the virus hits all sectors of society.

The long-running series **Pawb a'i Farn** returned with a new format last year with Betsan Powys taking the reins and guiding the discussion between panellists and members of the community.

According to Catrin Evans, the series producer, one of the biggest challenges was launching a new series during the pandemic.

"The intention was to continue with the tradition of taking the programme on the road and give people in a variety of communities the opportunity to voice their opinions on Welsh current affairs and demand answers from those who run our country," said Catrin.

"Obviously Coronavirus put a stop to that, so we had to adapt very quickly. We are lucky that the company has enough studio space in Llanelli to allow us to produce the programme within the Government's Covid-19 guidelines, and also all the technical resources to receive contributions from afar.

"Because there is a maximum of six contributors able to join us in the studio, we try to include additional voices through Skype or Zoom on screens."

Another obvious change to the programme is the inclusion of short films about the stories under discussion and collecting people's opinion beforehand to include in the programme.

"Obviously Covid has presented us with extra challenges – in terms of needing a bigger space to ensure everybody's safety - the contributors and the technical crew have to keep two metres

apart. The set has been constructed with a runway down the middle to ensure that Betsan Powys doesn't get too close to the contributors! And of course, we miss the audience very much in terms of getting an immediate reaction be it applause or booing!"

"Pawb a'i Farn is certainly as relevant in 2021 as ever. Forums like this which deal head on with Welsh matters are very few and far between. As Wales continues to change politically and socially, we more than ever need a platform where people can voice their opinions and look for accountability for the policies and decisions which affect their everyday life."

**Pawb a'i Farn gyda'r Prif Weinidog**
**Thursday 14 January 2021, 9.00**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Tinopolis production for S4C**